Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog
Prestatyn
Sir Ddinbych LL19 8RP
Ffôn: (01745) 853019
e-bost: ysgol.yllys@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.ysgolyllys.co.uk

Ysgol y Llys
Princes Avenue
Prestatyn
Denbighshire LL19 8RP
Phone: (01745) 853019
e-mail: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
Website: www.ysgolyllys.co.uk

D.M. Phillips, B.Ed.
Pennaeth / *Head teacher*

21.03.17

Annwyl Rieni,

Gŵyl Ffilm Ieuenctid Rhyngwladol 'Plascia Encorto'- Gwych yn cael cyhoeddi yr ydym wedi dod yn fuddugol mewn cystadleuaeth 'Creu Ffilm Ddogfen' yn yr Ŵyl draw yn Sbaen. Ysgol y Llys ar y map rhyngwladol! Gwych iawn!

Staffio: Gair i'ch hysbysu **na** fyddaf yn yr ysgol dros y bythefnos nesaf gan y bydd fy mab ieuengaf yn derbyn triniaeth ddwys yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl diwedd yr wythnos yma. Diolchaf o flaen llaw am gydweithrediad holl staff a llywodraethwyr yn ystod fy absenoldeb. Os gwelwch yn dda, cyfeiriwch ymholiadau i sylw'r Dirprwy Bennaeth, Mr Rhys Griffith neu athrawon dosbarth eich plant. Diolch yn fawr.

Clwb Llawen y Llys- Ni fydd Clwb Llawen y Llys ar agor ar y dydd Llun cyntaf yn dilyn gwyliau'r Pasg. (Sef dydd Llun, 24ain Ebrill, 2017. Mae hyn oherwydd trefniadau HMS sydd yn yr ysgol ar yr un diwrnod. Ymddiheuriadau am unrhyw anawsterau mae hyn yn ei achosi.

Gwaith dros y Pasg- Bydd gwaith o ddatblygu cegin newydd ar gyfer Clwb Llawen y Llys yn digwydd dros wyliau'r Pasg.

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2017- Cofiwch! Fe gynhelir profion cenedlaethol darllen a rhifedd yng Nghymru i blant Blynyddoedd 2-6 rhwng Mai 3-10, 2017. Byddaf yn atodi amserlen fanwl o ddyddiadau'r profion yn fuan iawn i rieni ar e-bost.

Urdd- Pob lwc i'r plant hynny sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod Sir yn Rhuthun ar ddydd Sadwrn, 1af Ebrill, 2017. Rydym oll yn falch iawn ohonoch ac yn dymuno pob llwyddiant i chwi. Mae amserlen rhagbrofion ar gyfer y diwrnod eisoes wedi mynd allan i rieni ar e-bost. Cysylltwch â'r ysgol os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.

Diwrnod Trwynau Coch / Comic Relief 24.03.17- Mae'r Cyngor Ysgol wedi trefnu y byddem yn cefnogi'r elusen eleni trwy gynnal diwrnod Gwalltiau Gwirion /Diwrnod Pyjamas. Bydd holl gyfraniadau yn mynd tuag at yr elusen. Diolch.

Diwedd tymor- Mae'r ysgol yn cau ar gyfer Gwyliau'r Pasg ar ddydd Gwener, 7fed o Ebrill, Mae Hyfforddiant mewn Swydd i staff ar ddydd Llun, 24ain o Ebrill, 2017 a bydd yr ysgol yn ail agor i bawb ar ddydd Mawrth, 25ain o Ebrill, 2017.

Yn gywir,

Dyfan Phillips
PENNAETH

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog
Prestatyn
Sir Ddinbych LL19 8RP
Ffôn: (01745) 853019
e-bost: ysgol.yllys@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.ysgolyllys.co.uk

Ysgol y Llys
Princes Avenue
Prestatyn
Denbighshire LL19 8RP
Phone: (01745) 853019
e-mail: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
Website: www.ysgolyllys.co.uk

D.M. Phillips, B.Ed.
Pennaeth / *Head teacher*

21.03.17

Dear Parents,

International Youth Film Festival Plasencia Encorto (Spain) *It is with great pride that I can now announce that we have won the 'Best Documentary Award' in the above International Youth Film Festival in Spain held recently. Ysgol y Llys on the International Map! Fantastic news!*

Staffing: *Just to inform you that I will be absent from Ysgol y Llys over the next two weeks as my youngest son is scheduled to have major surgery at Alder Hey Hospital, Liverpool at the end of this week. I thank the school staff and the members of the Governing Body for their co-operation and support during this time. In my absence, please refer any school enquiries to the Deputy Head teacher, Mr Rhys Griffith or the class teachers. Thank you.*

Clwb Llawen y Llys *- Unfortunately, Clwb Llawen y Llys will be* ***closed*** *on Monday, 24th April 2017 due to school arrangements for the Staff Training Day. The teaching staff of the Glan Clwyd feeder schools will converge at Ysgol y Llys for a staff training on this date. Apologies for any inconvenience that this may cause to parents. Hopefully, in notifying parents this early, it will enable familes to make other arrnagements for child care on this date.*

Works over the Easter- Work will be carried out to re-design the kitchen in the Clwb.

National Reading and Numeracy Tests 2017*- Remember! National Reading and Numeracy Tests in Wales will be carried out for pupils in years 2-6 between May 3-10th, 2017. A detailed timetable will be emailed out to parents before the end of this week.*

Urdd- *Good luck to all pupils who are competing in the Urdd County Eisteddfod ar Ruthin on Saturday, 1st April, 2017. We are all very proud of you and wish you well. The timetable of prelims has been sent out electronically to parents previously. Please contact school if you have any further enquries.*

Comic Relief / Red Nose Day 24.03.17- *The School Council Members have organised a fundraiser for this Friday's Comic Relief Appeal. Pupils and staff are invited to come to school in pyjamas and/or 'silly hair'. All donations will go towards the Comic Relief Appeal.*

End of term- *The school will close for Easter Holiadays on Friday, 7th April 2017.*
There is a Staff Training Day on Monday, 24th April, 2017 and school will re-open for all on Tuesday, 25th of April 2017.

Regards,
Dyfan Phillips
HEAD TEACHER